Canlyniadau Eisteddfod Ysgol

Cafwyd cystadlu o safon uchel, ac yn y diwedd enillodd Seilo o 246 o farciau i 229 gan Stewi. Capteniaid tŷ Seilo oedd Ioan Beechey, Glenn Colegate, Lynne Hughes a Helen Valentine, a Catrin Jones oedd arweinyddes y côr. Capteniaid Stewi oedd James Read, Sara Lathwood, Andrew Turner a Rhian Haf Williams, ac arweinyddes y côr oedd Bethan Thomas. Llongyfarch-iadau i Bethan hefyd am ennill y gadair am ei cherdd 'Y Môr'.

Mae dau dîm pêl-droed yr ysgol yn dal i gystadlu yng nghynghrair y Mini Minor. Gyda dwy gêm ar ôl, mae tîm Penrhyn-coch ar ben y gynghrair. Mae Bois Bro Dafydd yn dal i frwydro ymlaen ac mae'r rhagolygon yn dda erbyn y tymor nesaf. Llongyfarchiadau i Andrew Turner am gael ei ddewis i gynrychioli'r 'School of Excellence'. Mae'r tîm hoci hefyd yn llwyddiannus. Ar ôl chwarae chwe gêm maent ond wedi colli un, a dim ond dwy gêm sydd ar ôl ganddynt.

Bydd dau dîm Dawnsio Gwerin yn cystadlu yn Noson Ddawns yr Urdd yn Felin-fach ar 23ain o Fawrth 1992 a disgo - gobeithio. Dymunwn yn dda iddynt.